**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**28 Hydref 2013**

**MONITRO PERFFORMIAD**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

**1** Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac i fonitro perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella.

**Gwybodaeth**

**2** Er gwybodaeth i'r Aelodau, ynghlwm mae'r adroddiad monitro sy'n ymwneud â hanner cyntaf blwyddyn adrodd 2013/14, ac sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1af Ebrill 2013 a 30ain Medi 2013 yn atodiad 1.

**Argymhelliad**

**3** Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**Atodiad 1**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**HANNER CYNTAF**
**EBRILL 2013 – MEDI 2013**

**Ffigyrau dros dro a ddarperir, ac efallai y bydd mân newidiadau iddynt**

.

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| | **MONITRO GAN GYMHARU AG AMCAN GWELLA 1** | **2 - 6** |
| | | |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| RRC/C/005 | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn tanau mewn cartrefi | |
| | Pobl yn dianc yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner | |
| | | |
| | **ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU** | **7 - 13** |
| | | |
| | **CRYNODEB** | **7** |
| | Trosolwg o'r digwyddiadau yr aethpwyd atynt | |
| | | |
| | **TANAU YR AETHPWYD ATYNT** | **9 - 12** |
| RRC/S/001 | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| RRC/S/003 | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **13** |
| | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| | **GALWADAU DIANGEN** | **15 - 16** |
| RRC/C/002 | Galwadau diangen maleisus | |
| RRC/C/003 | Galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **GEIRFA** | **17** |

## AMCAN GWELLA 1:

## Atal Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

**BLWYDDYN ADRODD – 2013/14**

**HYHE- Hyd yn hyn eleni**

Dangosir cymariaethau â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | HYHE | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 129 | 115 | | | 244 | ↑ 11% |
| Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | 12 | 10 | | | 22 | ↑ 5 |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2 | 0 | | | 2 | ↑ 1 |
| % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | 78% | 80% | | | 79% | ↓ 2pp |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu | 61% | 58% | | | 60% | ↑ 3pc |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu | 23% | 28% | | | 25% | ↓ 1pc |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol | 16% | 14% | | | 15% | ↓ 2pc |
| % yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner | 32.2% | 31.8% | | | 32.0% | ↑ 7.6 pc |

**Y LLYNEDD – 2012/13**

| | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 97 | 123 | | | 220 |
| Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | 8 | 9 | | | 17 |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 1 | 0 | | | 1 |
| % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | 83% | 80% | | | 81% |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu | 58% | 56% | | | 57% |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu | 29% | 23% | | | 26% |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol | 13% | 21% | | | 17% |
| % yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner | 46.0% | 34.6% | | | 39.6% |

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf


- ***Bu 11% neu 24 yn fwy o danau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â 2012/13***

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 244 o danau damweiniol mewn cartrefi, sydd yn fwy na'r flwyddyn flaenorol ac yn fwy na'r cyfartaledd o 210 dros dair blynedd.

**Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi: Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Cafodd 22 o bobl anafiadau yn y tanau hyn – roedd 21 wedi eu categoreiddio'n mân anafiadau, ac un yn ddifrifol. Mae'r categori 'anafiadau' yn eithrio unrhyw berson a dderbyniodd gymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig neu unrhyw un a gynghorwyd i gael triniaeth feddygol ragofalol, yn unol â'r cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer llunio dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

**Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Bu dau farwolaeth mewn tân damweiniol. Bu un marwolaeth yng Ngwynedd (mis Mai) ac un yng Nghonwy (Mehefin), disgwylir cadarnhad gan y Crwner ynglyn â'r ddau achos.

*Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf*




Ar ôl Ebrill 2009 ymlaen caiff anafusion anangheuol eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:


i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
iii) rhoddwyd cymorth cyntaf yn y fan a'r lle;
iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – ystyr hyn y bydd unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty neu'n cael ei gynghori i weld meddyg rhag ofn, ond pryd nad oes unrhyw anaf neu ddioddefaint amlwg.

Oherwydd y newid yn Ebrill 2009, a dyfodiad y nodydd 'anaf yn gysylltiedig â thân', mae'n bosib na fydd parhad yn nifer yr anafusion anangheuol.

**Y canran o bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub**

- ***bu i 79% o'r bobl mewn tân*** *damweiniol* ***mewn cartref ddianc yn ddianaf a heb gymorth gan y criwiau a fynychodd y tân.***

*% y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub*




Gyda rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a chynllun dianc wedi ei ymarfer ac wedi ei deilwra i anghenion unigol preswylwyr y cartref, gall pobl gael y siawns orau i ddianc yn ddianaf o dân mewn cartref heb orfod dibynnu ar gael eu hachub gan griw tân.


Mae'r 79% a gafwyd yn hanner cyntaf y flwyddyn hon yn ymwneud â chyfanswm o 428 o bobl, gyda 338 ohonynt wedi gallu gadael y cartref yn ddiogel heb orfod cael eu hachub gan griw tân.

## Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb Larymau Mwg

- ***roedd 15% o'r cartrefi a gafodd dân heb larwm mwg, sydd 2 pwynt canran yn is (felly'n well) nag yn 2012/13 ac 1 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.***

Bu i'r nifer o danau mewn cartrefi godi 9% (21 tân) yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, i 262 o danau (o 241 yn y flwyddyn flaenorol).

*Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (canrannau)*





Roedd 15% o'r holl danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn yr hanner cyntaf (40 o danau) wedi digwydd mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg yno. Mae hyn yn ganran is na'r flwyddyn flaenorol ac 1% yn is na'r cyfartaledd dros 3 blynedd.

Mewn 60% o'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (156 o danau) roedd larwm yno ac roedd wedi seinio. Mae'r ganran hon o'r cyfanswm yn uwch na'r llynedd, ac 1% yn is na'r cyfartaledd dros dair blynedd.

Mewn 25% o'r tanau mewn cartrefi aethpwyd atynt (66 o danau), roedd larwm yno ond heb seinio. Roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond yn uwch na'r cyfartaledd dros dair blynedd. Y prif reswm pam nad oedd larymau wedi seinio er eu bod yn yr eiddo oedd y ffaith nad oedd y tân yn ddigon agos i'r larwm i beri iddo seinio.

*Tanau mewn cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (nifer a chanrannau)*




## Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (ADTC)

- ***cwblhawyd 32% o'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner.***

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, roedd 3,965 (32%) o blith y 12,386 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhai a oedd yn deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i darged y Gwasanaeth ei hun, sef 25%.

*% yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd wedi deillio o atgyfeiriad gan sefydliad partner*



**ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Crynodeb o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt**

| BLWYDDYN ADRODD – 2013/14 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Dangosir cymariaethau â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl. Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd | 1,713 | 1,794 | | | 3,507 | ➔ 0.4% |
| Cyfanswm y tanau | 796 | 680 | | | 1,476 | ↑ 29% |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 210 | 208 | | | 418 | ↓ 32% |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 707 | 906 | | | 1,613 | ↓ 9% |


| LLYNEDD – 2012/13 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
| Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd | 1,721 | 1,800 | | | 3,521 |
| Cyfanswm y tanau | 623 | 524 | | | 1,147 |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 289 | 323 | | | 612 |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 809 | 953 | | | 1,762 |

**<u>Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt:</u>**

- ***Bu gostyngiad bach iawn o 0.4% neu 14 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 3,507 o ddigwyddiadau, sydd yn llai na'r blynyddoedd blaenorol, ac sy'n parhau â'r tueddiad cyffredinol am i lawr. Roedd mwy o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig a'r galwadau diangen na'r blynyddoedd blaenorol, tra bod cyfanswm tanau wedi cynyddu 29% (329 yn fwy o danau) o'i gymharu â'r un cyfnod llynedd.

*<u>Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, yn ôl math</u>*



## ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU: Y tanau yr aethpwyd atynt

| **BLWYDDYN ADRODD – 2013/14** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosir cymariaethau â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Cyfanswm tanau | 796 | 680 | | | 1,476 | ↑ 29% |
| Prif danau | 322 | 298 | | | 620 | ↑ 7% |
| Tanau eilaidd | 419 | 366 | | | 785 | ↑ 57% |
| Tanau simnai | 55 | 16 | | | 71 | ↑ 9% |
| Yr holl danau bwriadol | 287 | 248 | | | 535 | ↑ 14% |
| Yr holl danau damweiniol | 509 | 432 | | | 941 | ↑ 39% |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 29 | 25 | | | 54 | ↓ 27% |

| **Y LLYNEDD – 2012/13** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
| Cyfanswm y tanau | 623 | 524 | | | 1,147 |
| Prif danau | 261 | 321 | | | 582 |
| Tanau eilaidd | 311 | 189 | | | 500 |
| Tanau simnai | 51 | 14 | | | 65 |
| Yr holl danau bwriadol | 267 | 202 | | | 469 |
| Yr holl danau damweiniol | 356 | 322 | | | 678 |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 33 | 41 | | | 74 |

**Tanau:**

- ***Bu cynnydd o 29% neu 329 yn fwy o danau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 1,476 o danau, gyda chynnydd yn nifer y prif danau, y tanau eilaidd a'r tanau simnai o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r darlun yn y tymor hir a'r cyfartaledd dros dair blynedd, bu parhad yn y tueddiad cyffredinol am i lawr (gwelliant) yn nifer y digwyddiadau yr aeth y Gwasanaeth atynt. Mae hyn yn dangos bod y tywydd gwlypach na'r arfer yn ystod 2012/13 – yn ogystal â gwaith helaeth y Gwasanaeth ym maes atal tanau – wedi cael effaith sylweddol ar danau. Fe allai hyn hefyd gyfyngu ar werth rhai cymhariaethau blwyddyn wrth flwyddyn rhwng 2012/13 a'r flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2013/14.


**Tanau: Math**

**Prif danau** - bu cynnydd o 7% neu 38 yn fwy o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un flwyddyn y llynedd. Fodd bynnag, roedd hyn yn is na phob blwyddyn cyn hynny ers o leiaf 2008/09.

Yn ystod yr hanner cyntaf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y **tanau eilaidd**, sef 57% neu 285 yn fwy o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2012/13. Ond eto, roedd hyn yn is na phob blwyddyn cyn hynny ers o leiaf 2008/09. Bu cynnydd yn nifer y tanau glaswellt yn arbennig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda'r Gwasanaeth yn mynd at ddwywaith nifer y digwyddiadau, gan adlewyrchu'r tywydd gwlypach na'r arfer yn 2012/13.

**Tanau simnai** - bu cynnydd o 9% ond dim ond 6 yn fwy o danau oedd hyn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn digwydd yn ystod y mis oer a gafwyd yn Ebrill.

*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl math*




**Tanau: Cymhelliad**

Mae'r cynnydd yn nifer y tanau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn cael ei adlewyrchu yn y ddau gategori, sef tanau a gychwynnir yn fwriadol a'r rhai sy'n cychwyn trwy ddamwain.

Er fod nifer y tanau bwriadol yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, mae gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd dros dair blynedd (14% neu 117 yn llai o ddigwyddiadau).

*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad*




**Tanau:  Safleoedd annomestig:**

- ***Bu gostyngiad o 27% neu 20 yn llai o danau ar safleoedd annomestig o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 54 o danau o'r fath, sy'n is na'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd dros dair blynedd.  Mae hyn yn parhau â'r tueddiad am i lawr, sy'n gwrthgyferbynnu'r nifer cynyddol o safleoedd annomestig yn ardal yr ATA.

*Tanau ar Safleoedd Annomestig ac Anafusion*



**ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (nid tanau) yr aethpwyd atynt**

| BLWYDDYN ADRODD – 2013/14 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Dangosir cymariaethau â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 210 | 208 | | | 418 | ↓ 32% |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 83 | 78 | | | 161 | ↓ 19% |
| Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 127 | 130 | | | 257 | ↓ 38% |

| LLYNEDD – 2012/13 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
| Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 289 | 323 | | | 612 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 107 | 92 | | | 199 |
| Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 182 | 231 | | | 413 |

**<u>Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig:</u>**


- ***Bu gostyngiad o 32% neu 194 yn llai o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 418 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig, sy'n is na'r flwyddyn flaenorol ac yn is na'r cyfartaledd tair blynedd.

Parhaodd y tueddiad cyffredinol am i lawr yn nifer y **gwrthdrawiadau ar y ffyrdd**. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig **heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd,** 38% neu 156 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd ac sy'n parhau'n is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Er fod y tywydd gwlypach nag arfer yn 2012/13 wedi golygu llai o danau, mewn gwrthgyferbyniad roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi cynyddu yn y flwyddyn honno, gyda'r Gwasanaeth, er enghraifft, yn mynychu mwy o ddigwyddiadau oherwydd llifogydd; eto gall hyn gyfyngu ar werth y gymhariaeth flwyddyn ar flwyddyn rhwng 2012/13 a'r flwyddyn ariannol gyfredol 2013/14.

*<u>Gwasanaethau Arbennig yr aethpwyd atynt, yn ôl math</u>*



## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Mynd at alwadau diangen

| BLWYDDYN ADRODD – 2013/14 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosir cymariaethau â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 707 | 906 | | | 1,613 | ↓ 9% |
| Galwadau diangen maleisus | 22 | 23 | | | 45 | ↓ 18% |
| Galwadau diangen didwyll | 270 | 363 | | | 633 | ↓ 1% |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig | 255 | 342 | | | 597 | ↓ 17% |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall | 160 | 178 | | | 338 | ↓ 4% |

| Y LLYNEDD - 2012/13 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 809 | 953 | | | 1,762 |
| Galwadau diangen maleisus | 28 | 27 | | | 55 |
| Galwadau diangen didwyll | 317 | 323 | | | 640 |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig | 304 | 412 | | | 716 |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall | 160 | 191 | | | 351 |


**Galwadau diangen:**

- ***Bu gostyngiad o 49% neu 149 yn llai o alwadau diangen yr aethpwyd atynt o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn aeth y Gwasanaeth allan at 1,613 o alwadau am gymorth a drodd i fod yn alwadau diangen. Mae'r nifer hwn yn is na'r blynyddoedd blaenorol.

Mae niferoedd cyffredinol y galwadau diangen yn y 3 phrif gategori: sef galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig; galwadau diangen maleisus; a galwadau diangen a wneir yn ddidwyll, i gyd wedi gostwng.

*Galwadau diangen (GD) yr aethpwyd atynt, yn ôl math*




Oherwydd i'r categorïau galwadau diangen gael eu hail-gysoni cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2011/12 o ganlyniad i drafodaethau ar lefel genedlaethol, cafwyd newid yng nghyfran y galwadau diangen a gategoreiddwyd fel 'galwadau diangen systemau awtomatig' a'r rhai a gategoreiddwyd fel 'galwadau diangen a wnaed yn ddidwyll'.

Felly, roedd yn amhosibl cymharu tebyg wrth debyg rhwng ffigurau 2011/12 a ffigurau'r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â'r ddau gategori hwn o alwadau diangen. Nid oes disgwyl i hyn effeithio ar y cymariaethau yn y dyfodol.

## GEIRFA

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb. Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau. Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Tanau simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun. Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |